

Adroddiad Gwerthuso

Cronfa Canolfannau a Gofodau Dysgu Cymraeg Llywodraeth Cymru

Mawrth 2019

Cynnwys

Pwrpas yr adroddiad	4
Y briff.....	4
Methodoleg	5
Cyd-destun	7
Iaith Fyw: Iaith Byw – Bwrw Mlaen	7
Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr	8
Cyd-destun ehangach	9
Grant cyfalaf	10
Y Canolfannau	12
Gorolwg.....	12
Y Canolfannau unigol	14
Canfyddiadau	24
Cyflawni'r amcan craidd	24
Gweithgaredd strategol	24
Mesur canlyniadau	27
Gwersi a ddysgwyd	28
Casgliadau ac argymhellion	31
Cyflawni'r amcanion	31
Ystyriaethau	32
Argymhellion.....	35
Atodiad 1: Nodweddion sylfeini da	37

Pwrpas yr adroddiad

Yn 2014 agorodd Llywodraeth Cymru gronfa buddsoddi cyfalaf i gefnogi datblygiad Canolfannau a/neu ofodau dysgu i hybu'r defnydd o'r Gymraeg neu drochi'r Gymraeg. Roedd yn un o brif ymrwymadau y ddogfen bolisi *iaith fyw: iaith byw – Bwrw mlaen a gyhoeddwyd ym mis Awst 2014*. Dros gyfnod o ddwy flynedd ariannol 2014-15 a 2015-16 buddsoddwyd £2.5 miliwn drwy'r cynllun.

Roedd pedwar math o gais yn bosibl gan awdurdodau lleol neu'r sector addysg uwch neu bellach:

- Canolfan Gymraeg newydd
- Canolfan Gymraeg sy'n bodoli eisoes ag angen cymorth i greu cyfleusterau ychwanegol
- Canolfan dysgu dwys i hwyrddyfodiaid
- Addasu ased cymunedol presennol i fod yn ganolfan Gymraeg.

Erbyn hyn mae pob canolfan wedi ei sefydlu ers o leiaf ddeunaw mis ac wedi cyflwyno adroddiad cau'r prosiect i Lywodraeth Cymru. Pwrpas yr adroddiad hwn yw adolygu llwyddiant y buddsoddiad hwn ar sail y dystiolaeth a ddarparwyd.

Y briff

Roedd y briff yn gofyn am ateb i'r ddau gwestiwn canlynol:

1. I ba raddau mae'r cynllun wedi llwyddo i gyflawni yr amcan craidd
 - i ddatblygu Canolfannau i alluogi pobl i ddysgu a/neu ddefnyddio'r Gymraeg a fydd yn ganolbwynt ar gyfer y Gymraeg yn y gymuned.

Ac i ba raddau mae'r cynllun wedi llwyddo i :

- Sefydlu prosiectau strategol
- Rhoi hwb i agenda bolisi'r Gymraeg
- Darparu sylfaen i brosiectau cymunedol fod yn hunan-gynhaliol
- Gynhyrchu syniadau ac egni newydd

2. I ba raddau mae'r Canolfannau unigol wedi llwyddo i gyflawni yr amcanion ddisgrifiwyd yn ei cais gwreiddiol. Disgwylwyd i'r Canolfannau gefnogi un neu ragor o'r canlynol:

- cyfleoedd i fusnesau Cymraeg i arloesi a rhwydweithio;
- cyfeirio busnesau tuag at wasanaethau cefnogi busnes Cymraeg;
- cyfleoedd i oedolion ddysgu Cymraeg;
- cyfleoedd i ddysgwyr i ymarfer eu Cymraeg ac i ddod yn siaradwyr hyderus;
- dysgu dwys yn y Gymraeg i hwyrddyfodiaid, er mwyn caniatáu iddynt drosglwyddo'n ddidrafferth i ysgolion dwyieithog lleol;
- darpariaeth profiad gwaith cyfrwng Cymraeg er mwyn cefnogi dysgu galwedigaethol;
- darpariaeth addysg cymunedol cyfrwng Cymraeg i oedolion;
- creadigrwydd a chydweithio ym maes celfyddydau perfformio Cymraeg a/neu'r cyfryngau digidol;
- hybu a darparu digwyddiadau cymunedol Cymraeg;
- cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfa anffurfiol a chymdeithasol – ar gyfer pob oed, ond yn arbennig ar gyfer pobl ifanc;
- cynyddu pa mor weladwy yw'r Gymraeg a chynyddu'r ymwybyddiaeth ohoni ymhlith ymwelwyr a'r boblogaeth leol.

Methodoleg

Mae'r gwerthusiad hwn yn seiliedig ar adolygiad o'r ddogfennaeth ganlynol a ddarparwyd:

- Canllawiau i ymgeiswyr
- Copïau o'r ceisiadau llwyddiannus a'r llythyron dyfarnu
- y canllawiau ddarparwyd gyda'r llythyr dyfarnu grant
- *laith fyw: iaith byw – Bwrw mlaen*
- Copïau o adroddiadau cau y Canolfannau

Adolygwyd hefyd bresenoldeb y Canolfannau ar y cyfryngau cymdeithasol megis Twitter, YouTube a Facebook.

Cynhaliwyd cyfweiliadau dros ffôn ac e-bost gydag enwau cyswllt i'r Canolfannau eu hunain.

Yn anorod, oherwydd natur amrywiol y Canolfannau, mae'r wybodaeth a chynnwys yr adroddiadau cau hefyd yn amrywio. Cydnabu'r Llywodraeth y byddai ansawdd y data a chynnwys yr adroddiadau yn ei gwneud hi'n anodd cymharu a meincodi'r Canolfannau ac nid oes ymgais i wneud hynny yn yr adroddiad hwn. Nid oes modd chwaith cynnig asesiad o effaith y Canolfannau o ran y gwahaniaeth a gyflawnwyd nac effaith y buddsoddiad ar y gynulleidfa darged oherwydd nid oes data digonol ar gael at y diben hwn. Nid oes ymgais chwaith i werthuso budd economaidd y Canolfannau i'w hardaloedd.

Er i'r Llywodraeth ddarparu canllawiau adrodd i'r cyrff, anghyson yw'r gwaith dadansoddi deilliannau ar sail tystiolaeth feintiol ac ansoddol ac felly bu'n rhaid dibynnu'n bennaf ar naratif ansoddol mewn nifer o achosion. Mae hyn yn ddealladwy i raddau oherwydd natur a dibenion amrywiol y Canolfannau a'u gofynion adrodd gwahanol. Wedi dweud hynny, mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn yr adroddiadau cau yn ein galluogi i gynnig casgliadau ynglŷn â'r graddau mae'r amcanion craidd wedi llwyddo ac mae'n rhoi cipolwg ar y gweithgareddau sydd i'w gweld yn cyfrannu at ddeilliannau cadarnhaol ar gyfer y Gymraeg yn lleol ac yn genedlaethol.

Wrth ystyried graddau llwyddiant y Canolfannau i wireddu'r amcan craidd a'r amcanion strategol fel y'u nodir uchod, edrychwyd ar y modd y mae'r gwaith yn mynd rhagddo a sut mae'n ateb yr anghenion a nodwyd, sut mae'n gydnaws â blaenoriaethau polisi (yn lleol ac yn genedlaethol), y modd y maent wedi cryfhau partneriaethau a dod â budd ehangach i'r gymuned. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at rai arferion da y gellir eu rhannu neu eu trosglwyddo ynghyd â rhai gwersi a ddysgwyd sy'n gyffredin i nifer o'r Canolfannau.

Cyd-destun

laith Fyw: laith Byw – Bwrw Mlaen

Cyhoeddwyd *laith fyw: iaith byw – Bwrw Mlaen* ym mis Awst 2014 yn amlinellu'r amcanion strategol ar gyfer y cyfnod 2014-2017. Yn sail i hyn roedd adroddiadau ymchwil ac adolygiadau polisi amrywiol (e.e. cymunedau, y Mentrau laith) oedd yn ategu'r angen i ddatblygu polisiâu ymarferol yn seiliedig ar y creadigrwydd oedd ar waith ar draws Cymru. Gyda phedair elfen yn ganolbwynt i'r datganiad polisi hwn:

- cryfhau'r cyswllt rhwng yr economi a'r Gymraeg
- yr angen am gynllunio strategol gwell
- defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned a
- newid ymddygiad ieithyddol,

roedd y nod o fuddsoddi mewn Canolfannau a gofodau dysgu yn llwyddo i bontio pob un o'r themâu hyn.

Nodwyd bod '*gormod o gyfleoedd yn cael eu colli i greu'r amgylchiadau i ganiatáu i'r Gymraeg ffynnu*' ac un ymateb i hyn oedd neilltuo cronfa i ddatblygu a chefnogi Canolfannau a mannau dysgu newydd i hybu'r defnydd o'r Gymraeg neu i greu Canolfannau trochi yn y Gymraeg. Roedd y strategaeth yn adnabod y '*pwyslais cynyddol ar yr angen i chwilio am ddulliau blaengar o ariannu prosiectau*' a thros gyfnod o ddwy flynedd ariannol 2014-15 a 2015-16, sianelwyd cyllid cyfalaf gwerth £2.5 miliwn drwy awdurdodau lleol, colegau a phrifysgolion.

Y nod oedd denu ceisiadau a fyddai'n

- dangos dull arloesol a phwyslais ar gydweithio mewn partneriaeth er lles y gymuned ehangach
- sefydlu prosiectau strategol
- rhoi hwb i'r agenda bolisi
- darparu sylfaen i brosiectau cymunedol fod yn hunangynhaliol.

Yng nghyd-destun ehangach Bwrw Mlaen, roedd ariannu'r Canolfannau yn cyd-fynd â'r awydd i hybu arloesedd, hwyluso cydweithio ymhlith partneriaid, rhoi hwb i flaenoriaethau'r Mentrau Iaith a chefnogi ardaloedd â chanran uchel o siaradwyr Cymraeg ynghyd ag ardaloedd o bwysigrwydd strategol. Mae Bwrw Mlaen hefyd yn cyfeirio at strategaethau awdurdodau lleol i hybu'r Gymraeg ar lefel sirol a'r angen i weithio mewn partneriaeth yn y cyd-destun hwnnw ac mae arwyddocâd y Canolfannau i hynny hefyd yn amlwg.

Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr

Yn 2017 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth hirdymor ac uchelgeisiol ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, a hybu a hwyluso defnyddio'r iaith.

Mae nodau Bwrw Mlaen yn pontio i strategaeth newydd Cymraeg 2050 ac maent wedi esblygu a chydblethu â nodau uchelgeisiol y strategaeth fwy hirdymor hon. Mae Cymraeg 2050 yn cydnabod yr angen i sicrhau hyfywedd cymunedau Cymraeg ond hefyd yr angen i wireddu potensial ardaloedd lle ceir dwysedd poblogaeth uchel ond canrannau is. Nodir bod angen ystyried pob ardal ar sail ei chyfansoddiad ieithyddol a tharo'r cydbwysedd priodol mewn modd strategol.

Mae'r Strategaeth yn gofyn am newidiadau trawsnewidiol ac mae cydweithio yn allweddol i hyn. Nodir bod angen sicrhau dealltwriaeth o ystyr 'cymuned' i wahanol bobl, i siaradwyr Cymraeg ac i ddysgwyr, a'r modd y mae'r ystyr yn esblygu dros amser ac yn ystod cwrs bywyd unigolion. Nodir nad yw profiad bywyd yn dilyn llwybr syth yn ieithyddol, ac mae llawer o ffactorau cymdeithasol amrywiol yn cydblethu.

Mae'r Strategaeth yn datgan '*y nod fydd symud i ffwrdd oddi wrth yr arfer o ariannu pob corff a digwyddiad er mwyn cefnogi, yn hytrach, gyfleoedd sy'n rhoi llwyfan i gymunedau weithredu drostyn nhw eu hunain*'. Mae'r elfen hon o'r strategaeth hefyd yn berthnasol i'r Canolfannau wrth edrych i'r dyfodol er mwyn sicrhau eu parhad yn eu cymunedau.

O ran rhaglen waith Cymraeg 2050 a'r cynllun gweithredu sy'n pennu amcanion strategol yn ystod y blynyddoedd nesaf, mae nifer o elfennau sy'n cydblethu â gwaith presennol y Canolfannau. Er enghraifft, yr angen i sicrhau partneriaethau effeithiol; ariannu cyfleoedd cymdeithasol i bobl ifanc; mapio'r ddarpariaeth gymunedol; rhoi cynlluniau gweithredu sirol ar waith i gryfhau cydweithio; cyflwyno cynllun grant newydd o 2019 ymlaen; rhoi ymyraethau a chyfleoedd ar waith i deuluoedd a chefnogi siaradwyr newydd.

Cyd-destun ehangach

Nodwyd eisoes bod strategaethau awdurdodau lleol i hybu'r Gymraeg ar lefel sirol yn berthnasol o safbwynt y Canolfannau a'u gwaith, ac mae'n darged gan rai o'r Mentrau Iaith i gydweithio â'r Canolfannau. Mae'r Canolfannau hefyd yn gweithredu mewn cyd-destun polisi ehangach:

- Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg Awdurdodau Lleol – yn naturiol mae'r Canolfannau trochi yn uniongyrchol gysylltiedig â'r cynlluniau hyn yn eu hardaloedd lleol, ond mae perthnasedd creu mwy o gyfleoedd i deuluoedd a phobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i fyd addysg ynghyd â gweithgareddau'r Siarter Iaith ledled Cymru yn golygu bod rôl y Canolfannau yn fodd o roi hwb i nifer o amcanion lleol a chenedlaethol yn y maes hwn.
- Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol – Nod y Ddeddf yw sicrhau bod cyrff yn cynllunio lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru gan feddwl mwy am yr hirdymor a gweithio'n well gyda'i gilydd, gyda phobl a chymunedau a gyda phartneriaid i fabwysiadu dulliau gweithredu mwy cyd-gysylltiedig a chynaliadwy. Felly er bod ffyniant y Gymraeg yn un o saith nodau'r Ddeddf, mae'n pontio pob un o'r nodau. Mae gweithgareddau'r Canolfannau, y Mentrau a'u partneriaid yn ateb galw ehangach na hyrwyddo'r Gymraeg. Mae eu gweithgareddau yn mynd i'r afael, er enghraifft, ag unigrwydd ymhlith y to hŷn, iechyd meddwl a gofal, gwirfoddoli a'r farchnad lafur leol. Mae potensial pellach felly i glymu gweithgareddau â nodau ac amcanion llesiant awdurdodau lleol a byrddau iechyd.
- Hefyd, mae gwaith rhai o'r Canolfannau yn syrthio i gwmpas Grantiau Arian i Bawb y Loteri Genedlaethol sy'n ariannu prosiectau sy'n *“dod â phobl ynghyd ac adeiladu cysylltiadau cryf o fewn ac ar draws cymunedau”*.

Felly yn y cyd-destun polisi ehangach hwn, mae rôl (neu botensial) y Canolfannau fel partneriaid pwysig i gyrff cyhoeddus a mudiadau gwirfoddol wrth wireddu rhai o'u hamcanion cymunedol, addysgol, y farchnad lafur, llesiant ac iechyd yn amlwg.

Grant cyfalaf

Wrth agor y gronfa buddsoddi cyfalaf gyfer 2014-15 a 2015-16 roedd canllawiau Llywodraeth Cymru i'r ymgeiswyr yn amlinellu pwrpas y grant cyfalaf yn glir. Roedd hwn yn grant i ariannu prynu adeilad neu adeiladu adeilad newydd, cynnal gwaith ffisegol neu brynu offer neu eitemau. Nid oedd yn darparu ar gyfer costau refeniw, er enghraifft costau staff, costau gweithredu neu gostau cynnal gweithgareddau.

Er y cyfyngiadau ynghlwm â grant cyfalaf, mae modd i grant o'r fath ysbrydoli pobl i weithredu ac arloesi; cryfhau dulliau o gydweithio, ac agor drysau i gyfleoedd newydd. Gall prosiectau o'r fath hyrwyddo gweithredu cymdeithasol ac economaidd y gymuned leol gan roi hwb i agenda bolisi'r Gymraeg (a mwy) yn lleol ac yn genedlaethol. Mae cyfle i bartneriaethau gael eu creu neu eu cryfhau wrth iddynt rannu nodau, arferion da ac adnoddau.

Wrth gwrs, mae risgiau ynghlwm ag unrhyw brosiect nad oes ganddo gynlluniau a chenhadaeth bendant, neu ymrwymiad gan bartneriaid a strwythur gweithredu cynaliadwy, ac mae hyn yn amlygu anfantais y grant cyfalaf, sef mai taliad un-tro ydyw nad yw'n cynnig cefnogaeth o unrhyw fath i sefydlogi a chynnal menter at y dyfodol.

Risg arall, ac un a oedd yn berthnasol i'r broses hon, yw'r amserlen¹. Roedd yr amserlen ar gyfer cyflwyno ceisiadau a gwario'r arian yn dynn iawn ac nid oedd yn caniatáu fawr o amser i sefydliadau allu cynnal gwaith paratoi trylwyr, cynnal gwaith ymchwil, dichonoldeb, ac ymgynghori cyn cyflwyno'u ceisiadau. (Er hynny, roedd sawl un o'r ceisiadau yn seiliedig ar ymdrechion oedd yn mynd rhagddynt yn barod i geisio adnabod neu ymateb i anghenion lleol a bylchau o ran y ddarpariaeth oedd yno ar y pryd, ee. y Lle, Llanelli.)

Drwy gyfyngu'r grant i awdurdodau lleol, sefydliadau addysg uwch neu addysg bellach awgrymwyd bod hyn yn cynnig elfen o sicrwydd y byddai'r ceisiadau wedi'u seilio ar allu a gweithdrefnau cyfreithiol a chyllido cadarn mewn cyfnod byr o amser. Ar y pryd, cafwyd beirniadaeth o sawl cyfeiriad i'r cyfyngiad hwn oedd yn cau allan ceisiadau gan fudiadau cymunedol, cydweithredol a gwirfoddol. Nodwyd bod y Gronfa Loteri Fawr yn cynnig grantiau o'r un maint i sefydliadau statudol a mudiadau gwirfoddol fel ei gilydd. Cyfeiriwyd at gyfle coll i gynnwys mentrau llawr gwlad oedd wedi tyfu'n organig mewn ymateb i angen lleol mewn sawl rhan o Gymru.

¹ Ar gyfer y rownd gyntaf o grantiau, cyhoeddwyd y canllawiau ym mis Medi 2014 a'r dyddiad cau oedd 6 Hydref, gyda'r dyfarniad ar 31 Hydref. Ar gyfer yr ail rownd, cyhoeddwyd y canllawiau yn Rhagfyr 2014, dyddiad cau 6 Chwefror 2015 a dyfarniad erbyn diwedd Mawrth 2015.

Roedd dealltwriaeth glir ymhlith y sefydliadau dan sylw ynghylch hyd a lled y cyllid, ac er cyfyngiadau amlwg grant cyfalaf nodwyd rhai manteision; er enghraifft *“y cynllunio lleol, neu’r lefel micro oedd y mantais mwyaf, y gallu i ymateb i anghenion lleol, i adnabod bwlch, ac i fod yn gatalydd ar gyfer gweithredu.”* Nododd canolfan arall *“Cryfder y grant oedd bod y meini prawf yn weddol eang a bod y cais yn syml iawn i’w gyflwyno”*.

Nododd sawl un y cyfwelwyd â nhw mai un o fanteision y prosiect cyfalaf hwn oedd nad oedd pobl ynghlwm ag agenda fanwl o dargedau strategol o du’r Llywodraeth. Bu modd, a bu’n rhaid, i bobl addasu yn ôl eu sefyllfaoedd gyda’r gwaith strategol yn esblygu yn ôl gofynion ac amodau lleol. Croesawyd y chwistrelliad o gefnogaeth lle na fu rhywbeth yna o’r blaen gan ei fod yn hwb o’r newydd i angen lleol mewn sawl man strategol ar draws Cymru.

Y Canolfannau

Gorolwg

Dyrannwyd y cyllid i gefnogi 6 chanolfan amlbwrpas, 4 canolfan i hwyrddyfodiaid a 2 ganolfan fwy penodol eu nod (Cymraeg Gwaith a hwb cyfathrebu i bobl ifanc). Mae manylion y Canolfannau a'r sefydliadau a oedd yn gyfrifol am gyflwyno'r cais fel a ganlyn:

2014-15 (£1m o gyllid cyfalaf)			
1	Coleg Cambria	£300,000	I ddatblygu Canolfan Cymraeg Gwaith ar gampws y coleg yn Wrecsam, Camu .
2	Prifysgol y Drindod Dewi Sant	£355,000	I ddatblygu canolfan iaith amlbwrpas yn nhref Caerfyrddin, yr Atom .
3	Cyngor Môn	£138,723	I ddatblygu 2 ganolfan hwyrddyfodiaid cynradd ac 1 ganolfan hwyrddyfodiaid uwchradd ym Modedern
4	Cyngor Sir Gâr	£110,000	I ddatblygu canolfan amlbwrpas yn Llanelli, y Lle .
2015-16 (£1.5 o gyllid cyfalaf)			
5	Cyngor Môn	£58,843	I ddatblygu hwb cyfathrebu i bobl ifanc, Canolfan Bro Alaw
6	Cyngor Caerdydd	£400,000	I newid yr Hen Lyfrgell yn yr Ais i fod yn ganolfan Gymraeg amlbwrpas
7	Cyngor Ceredigion	£150,000	I ddatblygu canolfan hwyrddyfodiaid yn Nhregaron fydd hefyd yn ganolfan i'r gymuned ehangach, Canolfan Henry Richard .
8	Cyngor Gwynedd	£300,000	I ddatblygu canolfan amlbwrpas yng nghanol Bangor, Popdy .
9	Coleg Ceredigion	£300,000	I ddatblygu canolfan amlbwrpas yn Aberteifi, y Man a'r Lle .
10	Academi Hywel Teifi	£300,000	I ddatblygu canolfan amlbwrpas ym Mhontardawe, Tŷ'r Gwrhyd .

Cafodd y ceisiadau gwreiddiol eu hasesu gan banel annibynnol ar sail y canlynol:

- Ffit strategol o ran yr ardal –cefnogi ardaloedd â chanran uchel o siaradwyr Cymraeg neu ardaloedd o bwysigrwydd strategol.
- Ffit strategol o ran gweithgaredd –cefnogi a hwyluso'r amcanion strategol.
- Partneriaethau –gweithio ag eraill er budd y gymuned ehangach.
- Cynaliadwyedd – sut bydd y prosiect yn gynaliadwy ac yn cael effaith hirdymor.
- Cost – a yw'n rhesymol am yr hyn sydd dan sylw.

Isod, cymerir golwg ychydig yn fanylach ar y Canolfannau unigol sydd wedi llwyddo i gyflawni a chynnal yr amcan craidd ei hun o sefydlu canolfan, er mwyn ceisio crynhoi y graddau y maent yn llwyddo hefyd i gyflawni'r amcanion strategol a bennwyd ar ddechrau'r broses. Rhoddwyd ystyriaeth i'r modd y mae gweithgaredd strategol y Canolfannau:

- yn cefnogi amcanion strategol lleol a chenedlaethol ac yn rhoi hwb i agenda bolisi'r Gymraeg
- yn cefnogi prosiectau cymunedol cynaliadwy
- yn cefnogi partneriaethau cryf a budd ehangach i'r gymuned
- yn creu syniadau ac egni newydd ynghyd ag arferion da trosglwyddadwy

Y Canolfannau unigol

Camu (Coleg Cambria)	
Amcan craidd	Creu canolfan sgiliau Cymraeg yn y Gweithle Cynyddu cyfleoedd i bobl sy'n byw yn Wrecsam a'r ardal i ddefnyddio'r Gymraeg, trwy ganolbwyntio ar werth y Gymraeg fel sgil i'r gweithle.
Cyd-destun lleol	Nodwyd y galw cynyddol am sgiliau dwyieithog yn y gweithle mewn sectorau fel gofal, blynyddoedd cynnar a gwasanaethau cyhoeddus yn unol â pholisiau sirol a chenedlaethol. Roedd y Coleg eisoes yn cynnig rhaglen o gyrsiau Cymraeg i staff busnesau a sefydliadau cyhoeddus, felly roedd ganddo waelodlin a model yn seiliedig ar ofynion lleol.
Gweithgaredd strategol	Mae Camu yn canolbwyntio yn benodol ar gynyddu cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle ac felly mae mwyafrif y gweithgareddau yn gysylltiedig â hynny. Serch hynny mae'r ganolfan wedi cyfrannu at wireddu nodau meysydd strategol ehangach ar y cyd â'r partneriaid.
Partneriaid amlwg (prif enghreifftiau)	Yr Urdd, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol; y Fenter Iaith; Fforwm Sirol
Cynaliadwyedd	Roedd gan y Coleg y capasiti a'r profiad i wireddu'r prosiect ar sail y gwaith roedd eisoes yn ei wneud o ran ei raglen o gyrsiau. Nodir bod Panel Ymgynghorol wedi cael ei sefydlu sy'n cynnwys y prif bartneriaid (ee. y Fenter Iaith a'r Fforwm Sirol) er mwyn rheoli'r prosiect a chynnwys prif randdeiliaid lleol.
Arferion da	<ul style="list-style-type: none"> • Gan fod y Ganolfan yn canolbwyntio ar ganlyniadau mewn un maes strategol, roedd yn gallu cadw golwg manwl ar ganlyniadau penodol dros gyfnod y prosiect. Amlygodd y canlyniadau hynny yr angen i ddatblygu gwaith gyda phobl ifanc ymhellach gan gynorthwyo gweithlu'r dyfodol i weld dwyieithrwydd fel norm yn y gweithle ac yn y gymuned yn ehangach ac ehangu eu defnydd o'r herwydd.

Yr Atom (Prifysgol y Drindod Dewi Sant)

Amcan craidd	Sefydlu canolfan gymunedol i'r Gymraeg yn nhref Caerfyrddin.
Cyd-destun lleol	Gwelwyd ymateb strategol yn Sir Gâr i ganlyniadau cyfrifiad 2011 a nodwyd yr angen am adfywio ieithyddol law yn llaw ag adfywio cymunedol wrth ddatblygu Caerfyrddin fel 'tref dwf ar gyfer y Gymraeg'. Un o brif nodau sefydlu'r ganolfan oedd gwneud y Gymraeg yn fwy gweladwy a chryfhau ei statws yn y dref.
Gweithgaredd strategol	Mae'r gweithgareddau wedi cwmpasu pob maes strategol ers ei sefydlu gyda ffocws penodol ar hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned. Gyda chynllun strategol newydd, bydd yr ymdrechion i'r dyfodol yn canolbwyntio ar sicrhau lle'r Atom fel canolfan Gymraeg i Gaerfyrddin sy'n gweithio mewn partneriaeth â mudiadau eraill i: ddatblygu cynllun integredig ar gyfer hyrwyddo'r Gymraeg; darparu cartref i fentrau'r Gymraeg; cydweithio ag eraill i ddarparu a hyrwyddo rhaglenni o weithgareddau; darparu gwasanaethau cefnogol i fusnesau'r dref gan gynnwys rhaglen dysgu a gloywi iaith i'r gweithle.
Partneriaid amlwg (prif enghreifftiau)	Cyngor Sir Gâr; Menter Gorllewin Sir Gâr; yr Urdd; Mudiad Meithrin; yr Egin/S4C
Cynaliadwyedd	Buddsoddodd y Brifysgol gryn dipyn yn y Fenter o'r cychwyn a'r nod yn y tymor byr oedd gosod gwreiddiau a sicrhau menter hyfyw a bellach mae'r ganolfan ar seiliau cadarn. Mae strwythur ac atebolrwydd clir yn gefn i gynllun strategol newydd. Sefydlwyd Pwyllgor Strategol i gynllunio at y dyfodol ac yna mae'r Pwyllgor Gweithredol yn gyfrifol am ei weithredu gyda'r Pwyllgor Strategol yn cymryd gorolwg ac adrodd yn ei dro i Bwyllgor Materion Cymraeg y Brifysgol. Mae'r cynllun hefyd yn amlinellu egwyddorion ac yn rhoi dadansoddiad o risgiau perthnasol. Ceir pwyslais cynyddol ar gydweithio a rhannu adnoddau.
Arferion da	<ul style="list-style-type: none">• Gwneir defnydd effeithiol o dystiolaeth feintiol ac ansoddol ac mae'r cynllun strategol ar gyfer y blynyddoedd i ddod yn cynnwys targedau mesuradwy o dan 4 blaenoriaeth strategol.• Partneriaeth â'r Egin yn sicrhau cyfleoedd newydd ar y cyd a dulliau newydd o weithio.• Partneriaeth gefnogol gyda'r Cyngor Sir, a'r Atom â'i rhan i'w chwarae yn llwyddiant Strategaeth Hybu statudol y Cyngor.

Canolfannau Ynys Môn – 2014 (Cyngor Ynys Môn)

Amcan craidd	Datblygu ac ymestyn y ddarpariaeth bresennol i hwyrddyfodiaid i ysgolion y sir a chydweithio gyda phartneriaid allweddol i gynnig darpariaeth i rieni hwyrddyfodiaid a'r gymuned i hybu'r defnydd o'r iaith mewn teuluoedd a chymunedau
Cyd-destun lleol	Er bod hanner y boblogaeth yn siarad Cymraeg, roedd Cyfrifiad 2011 yn dangos gostyngiad mewn niferoedd gyda phwysau mewn fudo i'r ardal yn fygythiad i'r iaith. Comisiynwyd astudiaeth gwaelodlin oedd yn rhoi darlun cynhwysfawr ynghylch statws y Gymraeg gan ddarparu sail gadarn i lywio strategaethau a pholisi. Mae cynllun gweithredu manwl yn codi o waith Fforwm Iaith Ynys Môn. <i>'Mae hyn yn golygu bod gennym gynllun bwriadus mewn lle ar gyfer cyrraedd y targed miliwn o siaradwyr'</i>
Gweithgaredd strategol	Mae'r ddarpariaeth hon yn seiliedig ar yr angen cydnabyddedig lleol ac yn ymateb uniongyrchol i flaenoriaethau strategol y Cyngor ar gyfer yr iaith ac addysg ac yn gydnaws â strategaeth y Gymraeg yn genedlaethol, drwy gynorthwyo hwyrddyfodiaid i drosglwyddo i addysg ddwyieithog a chymryd rhan lawn yn y gymuned leol. Model tebyg yn bodoli eisoes a modd pennu amcanion a deilliannau mesuradwy. Gwneir defnydd amrywiol o'r Canolfannau gan sicrhau budd i'r gymuned ehangach.
Partneriaid amlwg (prif enghreifftiau)	Y Fforwm Iaith; Y Fenter Iaith; yr Urdd; Canolfan Dysgu Cymraeg; Mudiad Ffermwyr Ifanc
Cynaliadwyedd	Bwriad creiddiol y cais oedd galluogi'r Awdurdod i ymateb yn well i'r galw am ddarpariaeth rymus a deniadol i hwyrddyfodiaid a thrwy fuddsoddi yn natblygiad a thrawsnewidiad y Canolfannau, mae'r ddarpariaeth gynradd wedi llwyddo i sicrhau twf sylweddol mewn ffigurau (2016-17). Gwelwyd nad oedd y ganolfan uwchradd yn gynaliadwy ar ei ffurf gwreiddiol yn dilyn y buddsoddiad a rhestrir nifer o resymau y tu hwnt i reolaeth y ganolfan am hynny. Felly bu'n rhaid addasu'r diben o ran defnydd ond llwyddwyd i gadw at yr amcanion strategol ehangach o hybu defnydd o'r iaith mewn teuluoedd a chymunedau drwy gydweithio â phartneriaid allweddol. Mae'r gwaith yn gynaliadwy o fewn yr adnoddau sydd ar gael, ond <i>'mae hyn yn ddibynnol iawn ar ewyllys da yr ysgol a'u cefnogaeth ddigwestiwn bob amser i'r iaith Gymraeg'</i> .
Arfer da	<ul style="list-style-type: none"> • Gwaelodlin a thargedau meintiol, ynghyd â dulliau amrywiol o gasglu tystiolaeth i hwyluso'r modd y mae'r Ganolfan yn gallu mesur effaith a llwyddiant strategol y buddsoddiad • Hyblygrwydd a gallu i addasu amcanion strategol wrth weld nad oedd y ganolfan uwchradd yn dwyn ffrwyth fel y gobeithiwyd, gan gydweithio gyda phartneriaid allweddol i gynnig darpariaeth amgen i hybu'r defnydd o'r iaith mewn teuluoedd a chymunedau.

Y Lle (Cyngor Sir Gâr)	
Amcan craidd	Creu canolfan gymunedol a chanolbwynt i'r Gymraeg yng nghanol tref Llanelli
Cyd-destun lleol	Roedd ymateb Sir Gâr i Gyfrifiad 2011 a'r gwaith ymchwil a dadansoddi strategol a gyflawnwyd yn gefndir i'r prosiect. Nid oedd canolfan o'r fath yn yr ardal. Roedd yr angen wedi'i adnabod yn dilyn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Llanelli a'r prosiect yn ffrwyth 2 flynedd o waith ymgynghori a chynllunio ar ran grŵp o wirfoddolwyr. Roedd menter gymdeithasol wedi'i sefydlu, C13 Cyf, gyda'r nod o sefydlu adeilad pwrpasol i hyrwyddo'r Gymraeg.
Gweithgaredd strategol	Y prif faes strategol ar y cychwyn oedd y pwyslais ar ddarparu sylfaen i brosiectau cymunedol fod yn hunangynhaliol, ond yn ogystal, roedd y ganolfan yn gweld y canlynol fel blaenoriaethau strategol: Hyrwyddo'r Gymraeg; Ysgogi pobl i ymgysylltu â'r Gymraeg yn rheolaidd; Canolfan adnoddau a lleoliad i ddsbarthiadau dysgu Cymraeg; gweithgareddau cymunedol. Drwy ddadansoddi ei ganlyniadau gyda thystiolaeth feintiol ac ansoddol, amlygwyd anghenion pellach. Bwriedir ailedrych ar flaenoriaethau strategol a rhoi pobl ifanc fel ffocws i'r gwaith.
Partneriaid amlwg (prif enghreifftiau)	Yr Urdd; Dysgu Cymraeg; y Fenter Iaith; Y Brifysgol; Coleg addysg uwch; ysgolion lleol
Cynaliadwyedd	Roedd sylfeini i'r prosiect cymunedol hwn cyn y grant, gyda gweledigaeth, nodau strategol a thîm o wirfoddolwyr, a bellach mae'r ganolfan yn gartref i nifer o wasanaethau gyda swyddfeydd, ystafelloedd a stiwdio – elfennau sy'n creu incwm.
Arferion da	<ul style="list-style-type: none"> • Wedi llwyddo i gyrraedd cynulleidfya darged gymharol heriol gyda chlwb ieuenctid llwyddiannus ac yn darparu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg y tu allan i'r ysgol. Mae'r Urdd yn talu am 10 wythnos y tymor a gweddill yr amser mae'r staff a'r gwirfoddolwyr yn cynnal y clwb ac mae hyn wedi arwain at adborth da iawn gan bobl ifanc a'r rhieni. • Cyflwyno'r Gymraeg i weithgareddau cymunedol eraill lle na fu ymwybyddiaeth o'r blaen drwy bartneriaethau newydd. • Ysgol Roc – enghraifft lle mae gweithgaredd wedi cael traweffaith ehangach yn y gymuned wrth i blant fynd yn eu blaenau i gael gwersi offerynnol yn Gymraeg gyda siop gerddoriaeth leol.

Canolfan Bro Alaw – 2015 (Cyngor Ynys Môn)

Amcan craidd	Creu hwb cyfathrebu addas ar gyfer 21ain ganrif a datblygu Canolfan Ragoriaeth Hyrwyddo'r Gymraeg i ieuencid
Cyd-destun lleol	Cyfrifiad 2011 yn dangos gostyngiad mewn niferoedd; pwysau mewnfudo i'r ardal. Mae'r Fforwm Iaith yn gosod cyfeiriad strategol ar y cyd â'r Cyngor o ran yr iaith ac addysg ac felly mae'r ddarpariaeth hon yn seiliedig ar angen cydnabyddedig i sicrhau darpariaeth i gefnogi pobl ifanc a hwyrddyfodiaid i ddefnyddio'r iaith yn gymdeithasol a chyfranogi yn y gymuned.
Gweithgaredd strategol	Y ganolfan yn ymateb uniongyrchol i strategaeth a pholisi lleol a chenedlaethol ym maes plant a phobl ifanc, y gymuned a'r gweithle. Ymchwil ac ystadegau eisoes yn rhoi gwaelodlin i'r gwaith ac wedi caniatáu i'r ddarpariaeth weld sut y mae wedi cyfrannu at gynnydd mewn defnydd a chyfranogiad.
Partneriaid amlwg (prif enghreifftiau)	Y Fenter Iaith; yr Urdd; Clybiau Ffermwyr Ifanc; Fforwm Iaith; Ysgol Bodedern.
Cynaliadwyedd	Mae canlyniadau'r prosiect yn sail i lywio'r ddarpariaeth i'r dyfodol a chyfraniad partneriaid yn allweddol i lwyddiant. Mae'r ysgol wedi rhoi lle i swyddfa'r Urdd yn y sir ac mae'r Urdd wedi buddsoddi yn eu Cynllun Prentisiaeth i sicrhau swydd ychwanegol am 3 blynedd wedi'i lleoli yn y Ganolfan. Gwneir defnydd bwriadus o sgiliau staff gwasanaethau ieuencid statudol y Cyngor i gydweithio ar yr amcanion strategol.
Arfer da	<ul style="list-style-type: none"> • Enghraifft o gydweithio a gweithgareddau'n pontio rhwng meysydd yw maes sgiliau ar gyfer cyflogaeth – mae 20% o'r tystysgrifau cenedlaethol i bobl ifanc a enillwyd yn y sir wedi deillio o waith a leolir yn rhannol yn y ganolfan. • Mesur llwyddiant gan ddefnyddio amrywiaeth o dystiolaeth – o ddata a gesglir gan bartneriaid i arsylwadau, adolygiadau a holiaduron. • Wrth i'r ganolfan weithredu fel canolbwynt i weithgaredd a chydweithio rhwng partneriaid mae'r mudiadau wedi gweld cynnydd yn y defnydd o'u gwasanaethau/digwyddiadau a'u ffigurau aelodaeth. • Cydnabyddir budd ehangach y cydweithio a rhannu adnoddau i'r buddsoddiad ee defnyddio arbenigedd a sgiliau Swyddog Datblygu'r Urdd i ddatblygu defnydd cyfryngau cymdeithasol gyda phobl ifanc.

Yr Hen Lyfrgell (Cyngor Caerdydd)	
Amcan craidd	Datblygu canolbwynt i'r Gymraeg yng nghanol y ddinas i hyrwyddo a dathlu'r Gymraeg.
Cyd-destun lleol	Dwysedd poblogaeth Caerdydd a'i demograffeg gymharol ifanc yn golygu bod nifer uchel o siaradwyr Cymraeg yn ei gwneud yn ardal o bwysigrwydd strategol. Nid oedd gofod na chanolbwynt amlwg yng nghanol y ddinas i ddenu teuluoedd, siaradwyr Cymraeg a dysgwyr i fynychu gweithgareddau cymdeithasol amrywiol ac i gynyddu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg.
Gweithgaredd strategol	Mae'r gweithgareddau wedi cwmpasu pob maes strategol gyda ffocws penodol ar ddysgu ac ymarfer y Gymraeg, gweithgareddau i blant a theuluoedd, digwyddiadau cymdeithasol, Cymraeg Gwaith a chodi ymwybyddiaeth. Mae'r ganolfan yn sicrhau canolbwynt i weithio cydlynol rhwng mentrau Cymraeg lleol. Nodir na fu dull cyson o werthuso'r gweithgaredd strategol ond bod nifer o'r partneriaid yn gwerthuso eu gweithgareddau at eu dibenion nhw ee. yn ôl Menter Caerdydd, mae 72% o'r plant sy'n mynychu'r clybiau yno yn dod o gefndiroedd cwbl ddi-Gymraeg ac felly mae hyn yn sicrhau cyfle iddynt ddefnyddio'r iaith y tu allan i oriau'r ysgol.
Partneriaid amlwg (prif enghreifftiau)	Menter Caerdydd; y Ganolfan Dysgu Cymraeg; Prifysgol Caerdydd; Bodlon
Cynaliadwyedd	Roedd y cais yn pwysleisio yr angen i lwyddo yn fasnachol gyda dibyniaeth ar greu incwm sylweddol (rhent a llogi ystafelloedd) i gynnal y ganolfan i'r dyfodol. Ers agor y Ganolfan bu'n rhaid addasu ac ymateb i sefyllfaoedd cyfnewidiol heriol (ee partneriaid allweddol yn gadael) ond erbyn hyn adroddir bod pethau wedi sefydlogi a chryfhau gyda phresenoldeb y Fenter Iaith (y prif bartner) sydd wedi'i lleoli yno bellach, a'r ffaith bod i'r Hen Lyfrgell ran ganolog wrth weithredu strategaeth hybu Caerdydd Ddwyeithog.
Arferion da	<ul style="list-style-type: none"> • Cyn sefydlu'r ganolfan roedd proses ymchwil ac ymgynghori helaeth â rhanddeiliaid a'r cyhoedd wedi adnabod yr angen am ganolbwynt i'r iaith yng nghanol y ddinas, ac roedd hyn yn sail i'r cais. • Mae'n gartref i'r Fenter Iaith ac i Fforwm Caerdydd Ddwyeithog sy'n hwyluso cydweithio a chyd-ddealltwriaeth o amcanion strategol yr holl bartneriaid. • Ymgorfforir amcanion yr Hen Lyfrgell i Strategaeth Caerdydd Ddwyeithog (Strategaeth 5 mlynedd statudol) gan gryfhau cyfranogiad partneriaid a hwyluso'r ffordd i fesur deilliannau a thraweffaith yn fwy effeithiol.

Canolfan Henry Richard (Cyngor Ceredigion)

Amcan craidd	Canolfan iaith i gefnogi hwyrddyfodiaid a chefnogi arferion iaith y sector uwchradd a'r gymuned yn Nhregaron
Cyd-destun lleol	Tregaron sydd â'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Ngheredigion. Gyda 60% o ddisgyblion yn rhugl yn y Gymraeg yn yr ardal benodol hon, mae pwysigrwydd cefnogi hwyrddyfodiaid ynghyd ag arferion iaith pobl ifanc yn allweddol.
Gweithgaredd strategol	Nod strategol y ganolfan yn gydnaws â blaenoriaethau strategol lleol (Strategaethau'r Cyngor o ran addysg a'r Gymraeg, a'r cynllun gwella) a blaenoriaethau cenedlaethol. Mae gwaelodlin yn sail i'r targedau strategol. Ers cychwyn y prosiect mae'r gwaith rhanbarthol o ddatblygu Siarter Iaith Uwchradd wedi gyrru'r gwaith yn ei flaen. Er bod gan y Ganolfan faes strategol penodol, mae hefyd yn ceisio sicrhau traweffaith y Ganolfan ar feysydd strategol eraill: plant a phobl ifanc, y gymuned, y gweithle a gwasanaethau, gyda gweithgareddau yn cael eu trefnu gan amryw bartneriaid.
Partneriaid amlwg (prif enghreifftiau)	Dysgu Cymraeg; yr Urdd; Theatr Felinfach; y Brifysgol ac ysgolion
Cynaliadwyedd	Canolfannau eraill yn y sir yn darparu model i seilio datblygiad y ganolfan arno. Mae diffyg cyllid ar gyfer staffio yn gwneud y prosiect yn un bregus. Er bod amrywiaeth o bartneriaid yn cynnal gweithgareddau yn y ganolfan sy'n ymestyn traweffaith y ganolfan i'r gymuned ehangach, mae anfantais o gael y ganolfan ar safle ysgol oherwydd ni ellir ei defnyddio yn ystod y dydd gan y gymuned ehangach.
Arfer da	<ul style="list-style-type: none">• Dulliau amrywiol o fesur canlyniadau, ee. 'asesu ar gyfer dysgu', arsylwadau, adborth a holiaduron electronig sydd wedi sicrhau barn a gwybodaeth onest gan ddefnyddwyr ifanc.• Adnabod y ddarpariaeth leol a cheisio ateb bylchau yn hytrach na dyblygu gweithgaredd.

Popdy (Cyngor Gwynedd)

Amcan craidd	Datblygu canolfan iaith amlbwrpas i gynyddu statws a defnydd o'r iaith Gymraeg ym Mangor
Cyd-destun lleol	Roedd canlyniad Cyfrifiad 2011 yn ysgogiad i sefydlu Menter Iaith Bangor pan gynhaliwyd gwaith ar fframwaith Gweithredu'n Lleol oedd yn dangos galw am gyfleoedd i gymdeithasu ym Mangor. Nid oedd cyrchfan/canolbwynt penodol yn bodoli. Nodwyd hefyd yr angen i hyrwyddo pob agwedd ar fywyd cymdeithasol y ddinas. Gyda llawer o weithgareddau cymunedol a chymdeithasol eisoes yn digwydd yn naturiol ohonynt eu hunain ym Mangor y nod oedd <i>"ategu'r ddarpariaeth a oedd ar gael yn hytrach na chynnal gweithgareddau ar draul Canolfannau eraill"</i> .
Gweithgaredd strategol	Ers ei sefydlu mae gweithgareddau'r ganolfan wedi bod yn gydnaws â blaenoriaethau strategol lleol a chenedlaethol ac yn canolbwyntio ar y themâu canlynol: Y gymuned; teuluoedd; plant a phobl ifanc; y gweithle. Mae dwy rôl i'r ganolfan – rôl gymdeithasol a rôl ysgogol a strategol fel pwerdy syniadau i gynllunio iaith ym Mangor ac yn ehangach.
Partneriaid amlwg (prif enghreifftiau)	Hunaniaith; yr Urdd; Menter a Busnes; Prifysgol Bangor a mudiadau a busnesau lleol.
Cynaliadwyedd	Gyda'r Ganolfan yn ganolbwynt i waith y Fenter Iaith i gynyddu defnydd o'r Gymraeg a chodi ymwybyddiaeth o'r iaith yn y ddinas, mae cyswllt â phartneriaid yn fodd i ymestyn y capasiti. Mae'r rhent a delir gan yr Urdd yn cynnig sicrwydd ariannol, ond mae hefyd mantais strategol a budd ehangach wrth i'r ddau fudiad gydweithio i ehangu'r ddarpariaeth gymdeithasol i blant a phobl ifanc.
Enghraifft o arfer llwyddiannus	<ul style="list-style-type: none">• Mae'r ganolfan wedi chwilio am fylchau mewn darpariaeth a cheisio'u llenwi – er enghraifft gyda gwersi Cymraeg eisoes ar gael i bobl leol, mae'r ganolfan yn cynorthwyo i gynnig cyfleoedd i ddysgwyr ymarfer yn anffurfiol, yn y ganolfan ei hun ac mewn tafarn leol.• Mae'r ganolfan yn gweld ei dylanwad y tu hwnt i'r adeilad ei hun er enghraifft, wrth gydweithio gyda Grŵp Cymunedol Bangor i sicrhau presenoldeb mwy canolog i'r Gymraeg a diwylliant Cymraeg mewn digwyddiadau lleol.• Prosiectau amrywiol fel y prosiect profiadau awyr agored i ddisgyblion blwyddyn 7 ar y cyd â'r Urdd i ymestyn defnydd o'r Gymraeg y tu hwnt i furiau'r ysgol a chodi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg fel sgil gwaith hanfodol yng Ngwynedd.

Y Man a'r Lle (Coleg Ceredigion)

Amcan craidd	Creu canolfan bwrpasol ac unigryw Gymraeg i fod yn ganolbwynt i weithgareddau addysgiadol, cymdeithasol a diwylliannol Cymraeg a dwyieithog yng nghanol Aberteifi.
Cyd-destun lleol	Dangosodd Cyfrifiad 2011 ddirywiad mewn niferoedd a defnydd o'r Gymraeg ac nid oedd man canolog pwrpasol i ddarparu canolbwynt i'r Gymraeg yn y dref. Mae i'r Gymraeg le yng ngwaith strategol y Coleg a hyn oedd yn sail i'r cais gyda'r campws yng nghanol y dref yn golygu lleoliad addas. Hefyd roedd Gweithgor wedi'i sefydlu fel rhan o brosiect Fframwaith Cymdogaethau Cymraeg Ffyniannus yn 2012 ac roedd hyn yn ffocws i geisio cryfhau statws a defnydd o'r iaith.
Gweithgaredd strategol	Gwelwyd rôl y Ganolfan fel un a fyddai'n hwyluso gweithgaredd mudiadau eraill a bod yn gatalydd i ddigwyddiadau cymunedol ac ers ei sefydlu mae defnydd amrywiol wedi'i wneud o'r Ganolfan – ee. gwersi dysgu Cymraeg, gigs cerddorol, man ymarfer i gwmni ieuenctid. Mae'r defnydd o'r Ganolfan gan y Coleg a mudiadau eraill wedi cwmpasu pob maes strategol i raddau amrywiol. Roedd canlyniadau meintiol ac ansoddol holiadur a gynhaliwyd yn cynnig cipolwg defnyddiol ar agweddau at y Ganolfan ac effaith y digwyddiadau a gynhaliwyd.
Partneriaid amlwg (prif enghreifftiau)	Cyngor Sir Ceredigion; Menter Iaith Ceredigion; Dysgu Cymraeg. Mudiad Meithrin; Ysgolion Lleol
Cynaliadwyedd	Sefydlwyd Grŵp Llywio gyda'r Coleg a phartneriaid i reoli'r prosiect a datblygiad y Ganolfan. Mae incwm yn dod o logi'r gofod ond mae'r adroddiad cau (Medi 2018) yn cydnabod bod rhai pryderon i'r dyfodol a nodir y byddai cynnal Grŵp Llywio Lleol o bartneriaid i gydlynu gweithgareddau o fudd mawr.

Tŷ'r Gwrhyd (Academi Hywel Teifi)

Amcan craidd	Sefydlu Canolfan Gymraeg gymunedol yng nghalon Cwm Tawe i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn lleol. Gofod aml-bwrpas i'w ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau dysgu Cymraeg; clybiau ieuenctid a gweithgareddau i blant; digwyddiadau cymunedol, siop lyfrau a gofod swyddfa.
Cyd-destun lleol	Ardal o bwysigrwydd strategol Aman Tawe. Cyfrifiad 2011 yn dangos sifft ieithyddol amlwg gyda gostyngiad yn y defnydd o'r Gymraeg fel iaith gymunedol yn enwedig ymhlith pobl ifanc. Nid oedd canolfan o'r fath yn yr ardal. Nodwyd angen am 'ffenest siop' i weithgareddau Cymraeg y sir.
Gweithgaredd strategol	Mae trosglwyddiad o addysg gynradd cyfrwng Cymraeg i addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg wedi cael ei nodi yn broblem neilltuol yng Nghwm Tawe. Roedd hyn yn sail gychwynnol felly i weithgareddau'r Ganolfan. Mae'r gweithgareddau wedi cwmpasu pob maes strategol gyda ffocws penodol ar deuluoedd, plant a phobl ifanc a'r gymuned.
Partneriaid amlwg (prif enghreifftiau)	Cyngor Sir Castell-nedd Port Talbot; Y Fenter Iaith; Prifysgol Abertawe; y Ganolfan Dysgu Cymraeg; Ysgolion Lleol; Mudiad Meithrin; Yr Urdd
Cynaliadwyedd	Drwy rannu adeilad cyhoeddus oedd eisoes ar waith fel cartref i'r llyfrgell leol a Hwb y Cyngor, mae'r Ganolfan a'r Hwb fel ei gilydd yn elwa o'r ymwelwyr â'r adeilad. Mae'r Ganolfan yn gartref i'r Fenter Iaith, ac mae'r siop yn ffynhonnell incwm ac yn cynorthwyo i gynnal digwyddiadau ar y cyd. Mae cefnogaeth partneriaid a rhanddeiliaid lleol yn allweddol. Mae'r Ganolfan yn datblygu polisi gwirfoddoli fydd yn hyrwyddo cyfleoedd pellach i bobl gyfranogi.
Arferion da	<ul style="list-style-type: none">• Mae'r siop yn llenwi bwlch yn y gymuned ac yn denu gweithgareddau i'r Ganolfan.• Mae'r clybiau amrywiol yn cynnig cyfleoedd rheolaidd i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg y tu hwnt i furiau'r ysgol• Gan fod partneriaid strategol yn rhannu'r un gofod, mae llawer mwy o gyd-hyrwyddo a rhannu gwybodaeth ac adnoddau na fuasai'n digwydd fel arall.• Gwneir defnydd effeithiol o dystiolaeth feintiol ac ansoddol i fesur traweffaith y Ganolfan o ran ei defnyddwyr a'r ardal yn gyffredinol. Er enghraifft, un o'r prif benawdau yn yr adroddiad cau: "61% o ddefnyddwyr yn dweud eu bod yn defnyddio mwy o Gymraeg yn y Gymuned ers i'r Ganolfan agor".

Canfyddiadau

Cyflawni'r amcan craidd

Mae'r dystiolaeth a gafwyd yn amlygu'r ffaith bod pob un o'r prosiectau wedi cyflawni amcan craidd y buddsoddiad o sefydlu canolfan ac mae'r Canolfannau hynny yn parhau i weithredu ac edrych i'r dyfodol. Fe'u sefydlwyd un ai mewn ardaloedd lle ceir canran uchel o siaradwyr neu mewn ardaloedd neu feysydd o arwyddocâd strategol i'r iaith.

Mae graddau'r llwyddiant wedi amrywio ac mae'r dystiolaeth yn yr adroddiadau cau yn cyfleu'r modd y bu'n rhaid i nifer ymaddasu wrth ymateb i heriau a datblygiadau drwy newid dulliau o weithio neu newid ffocws eu hamcanion.

Mae rhai Canolfannau yn cadw golwg bryderus ar y dyfodol ac eraill mewn sefyllfa gryfach o lawer ond ar y cyfan mae'r dystiolaeth yn rhoi argraff o sefydlogrwydd ond nid o laesu dwylo, a chyfleir darlun cyffredinol o hunan-werthuso a chynllunio'n strategol at y dyfodol oddi mewn i'r adnoddau sy'n caniatáu.

Gweithgaredd strategol

Gan arwain ymlaen o amcan craidd y Canolfannau, mae llawer ohonynt yn nodi mai'r elfen bwysig ynghlwm â'r amcan hwnnw oedd yr angen i lenwi bylchau mewn darpariaeth yn lleol ac ategu (nid cystadlu â) gwaith eraill. Pwysleisiwyd gan sawl un ei bod hi'n bwysig i beidio â dyblygu ymdrechion a chamu i dir strategol partneriaid heb i bawb fod yn gytûn ar yr amcanion.

Er hynny, nodwyd y bu rhai tensiynau yn nyddiau cynnar y Canolfannau wrth geisio ymsefydlu a phennu hyd a lled eu gweithgareddau. Yr elfen bwysicaf heb amheuaeth ym marn y rhai y cyfwelwyd â nhw oedd cyfathrebu clir ac onest ddwy ffordd er mwyn sicrhau cyd-ddealltwriaeth a oedd wedyn yn arwain at rannu syniadau, adnoddau a sgiliau.


Roedd sawl enghraifft o'r modd yr oedd y gyd-ddealltwriaeth hon wedi arwain at fudd ehangach wrth i bartneriaid sicrhau cyfleoedd ar y cyd i gynnal a chyd-hyrwyddo digwyddiadau. Nodwyd mai proses barhaus yw hon a bod angen parhau i sicrhau cyfathrebu a dealltwriaeth ymhlith yr holl bartneriaid a'r Canolfannau yn lleol ac yn genedlaethol.

Mae'r ffaith bod cynifer o'r Canolfannau yn gartref i Fentrau Iaith lleol a phartneriaid allweddol eraill fel yr Urdd a Mudiad Meithrin yn golygu eu bod yn gweithredu fel canolbwynt i weithgareddau sy'n cael eu cydlynu a'u cyd-hyrwyddo yn fwy effeithiol. Mewn rhai

enghreifftiau, mae amcanion strategol Canolfannau yn bwydo'n uniongyrchol i strategaethau hybu ar lefel sirol, sy'n golygu hefyd bod canlyniadau'n cael eu mesur yn gyson â chanlyniadau partneriaid eraill.

O ran cyfleu gwybodaeth a negeseuon i'r gymuned o ddefnyddwyr ac i gynulleidfa ehangach, mae'r mwyafrif yn gwneud defnydd da o Twitter a Facebook i hyrwyddo eu digwyddiadau nhw a'u partneriaid. Mae gwefannau gyda nifer ohonynt ond amrywiol yw'r wybodaeth a gyflëir ac ymddengys nad yw rhai yn cael eu diweddar'u rheolaidd (ee. dyddiaduron/digwyddiadau sydd ar y gweill).

At ei gilydd, mae'r dystiolaeth yn cyfleu darlun o weithgaredd mewn sawl maes perthnasol. Er mwyn rhoi cipolwg bras iawn ar natur y gweithgareddau mae'r ffigur isod yn amlygu prif themâu'r Canolfannau:



Cymunedol – Mae hyd a lled y gweithgareddau cymunedol yn eang gyda'r themâu amlycaf yn cynnwys cyfleoedd i ddysgu ac ymarfer y Gymraeg; cyfleoedd i deuluoedd ddefnyddio'r Gymraeg gyda'i gilydd yn gymdeithasol; clybiau i ymestyn defnydd o'r Gymraeg yn gymunedol; targedu busnesau lleol er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a budd gweithlu dwyieithog. Mae

Dysgu Cymraeg yn elfen fawr o'r gweithgaredd - er enghraifft yn cyfrif am 55% o weithgaredd yr Atom yn y flwyddyn a hanner gyntaf. Mewn rhai ardaloedd darperir gofod i ddsbarthiadau, mewn ardaloedd eraill lle mae dosbarthiadau dysgu Cymraeg eisoes yn rhan o'r ddarpariaeth leol, mae'r Canolfannau yn cynnig gofod anffurfiol i gwrdd ac i ymarfer. Budd ychwanegol y Canolfannau i ddysgwyr y Gymraeg yw helpu i ehangu eu defnydd a'u hyder wrth gynnig digwyddiadau cymdeithasol Cymraeg mewn gofod penodol ar eu cyfer, a gweithredu fel canolfan wybodaeth i rannu manylion am weithgareddau tu hwnt i'r ganolfan gan bartneriaid yn yr ardal.

Plant a phobl ifanc – Yn ogystal â'r Canolfannau mwy amblwrpas sy'n darparu gweithgareddau i gynnwys plant a'u teuluoedd a phobl ifanc, mae rhai Canolfannau yn neilltuo llawer o'u hadnoddau a'u hamser i hyrwyddo defnydd ymhlith pobl ifanc. Yma gwelir cyfleoedd i dorri tir newydd ym maes y cyfryngau digidol, a'r celfyddydau perfformio. Er enghraifft yn y Lle cynhaliwyd Ysgol Roc lwyddiannus i bobl ifanc leol a gafodd draweffaith ehangach wrth i nifer fynd yn eu blaenau i gael gwersi offerynnol yn Gymraeg gyda siop gerdd leol.

Hwyrddyfodiaid – Mae pwrpas penodol i'r Canolfannau hyn – ymateb i angen lleol sydd wedi'i adnabod yn strategol. Gyda modelau eisoes yn bodoli y gellid seilio gweithgaredd arnynt a ffocws ar un maes strategol, gwelwyd bod modd olrhain traweffaith y gwaith oherwydd y gwaelodlin a'r dystiolaeth a gesglir. Mae adroddiad Cyngor Môn hefyd yn nodi bod modd gweld budd ehangach i ddefnydd cymunedol wrth i bartneriaid gael lle blaenllaw yn y Canolfannau, ee yr Urdd, Ffermwyr Ifanc. Nodwyd bod aelodaeth y mudiadau hyn wedi cynyddu ers dyfodiad y ganolfan.

Cymraeg Gwaith – Mae ambell i ganolfan yn cyfeirio at weithgareddau codi ymwybyddiaeth yn lleol o werth y Gymraeg fel sgil ac yn cynnig gweithgareddau mwy penodol i helpu gloywi a chynyddu hyder pobl er mwyn ymestyn eu defnydd o'r iaith o fod yn iaith gymdeithasol i fod yn iaith gwaith. Ond mae Canolfan Camu yn arloesi yn y maes hwn yn bennaf gan blethu ei weithgaredd â gwaith partneriaid allweddol. Nodwyd bod hyrwyddo'r Gymraeg fel sgil gwaith yn faes sy'n tyfu a bod y ganolfan wedi gweld cryn lwyddiant i'r graddau nad oes rhagor o le yn y ganolfan bellach i gynnal yr holl weithgareddau y mae galw amdanynt. Adroddir bod y llwyddiant i'w briodoli i raddau helaeth i ddyfodiad Safonau'r Gymraeg ac ymwybyddiaeth y sector cyhoeddus o'r gofynion arnynt o ran eu gweithluoedd a'u gwasanaethau, ond mae'r ymwybyddiaeth uwch hon wedi arwain at gyrff o'r sector preifat yn defnyddio'r ddarpariaeth.

Mesur canlyniadau

Fel y nodwyd eisoes, gan fod natur ac amcanion y Canolfannau yn amrywio ar draws Cymru, mae'n anodd creu darlun cynhwysfawr o ganlyniadau. Yn ogystal â hynny, amrywiol iawn oedd y dystiolaeth a gyflwynwyd yn yr adroddiadau cau, sef yr adroddiadau oedd yn pwysu a mesur llwyddiant y buddsoddiad.

Darparodd y Llywodraeth ganllawiau adrodd i'r Canolfannau oedd yn cynnig arweiniad ar y meysydd strategol y dylid adrodd arnynt gyda dangosyddion posibl. Mae'r canllawiau yn gofyn am dystiolaeth a natur y dulliau casglu gan nodi '*fe ddylai'r prif ffocws fod ar y canlyniadau a'r deilliannau*'. Nodir y gwahaniaeth rhwng deilliannau (y newid sydd wedi digwydd) ac allbynnau (ffeithiau am y gweithgareddau, ee faint a nifer).

Yn ôl y dystiolaeth a gyflwynir yn yr adroddiadau cau, mae'n glir ei bod hi'n anodd priodoli canlyniadau i weithgaredd penodol a dod i gasgliadau ynglŷn ag effaith y gweithgareddau wrth adrodd arnynt mewn cyfnod byr o amser. Wedi dweud hynny, gwelir rhai enghreifftiau sy'n cynnig tystiolaeth o ganlyniadau cadarnhaol, yn enwedig gan ganolfannau sy'n canolbwyntio ar feysydd strategol penodol fel hwyrdyfodiaid, Cymraeg Gwaith, Dysgu Cymraeg, a phlant a phobl ifanc.

Mae'r Canolfannau amlwrpas hefyd yn casglu cryn dipyn o dystiolaeth feintiol ac ansoddol ar draws ystod o themâu strategol, gyda Thŷ'r Gwrhyd er enghraifft, yn defnyddio holiaduron ac astudiaethau achos i fesur traweffaith y gweithgareddau ar y defnydd o'r Gymraeg yn lleol, gydag un enghraifft yn nodi bod "*61% o ddefnyddwyr (y Ganolfan) yn dweud eu bod yn defnyddio mwy o Gymraeg yn y Gymuned ers i'r Ganolfan agor*".

Nod arall y canllawiau adrodd oedd bod yr adroddiadau yn cyfrannu at y broses werthuso genedlaethol fyddai'n '*darparu sylfaen ar gyfer ymchwilio, casglu data a dadansoddi yn y dyfodol....Ni ddylai'r gwaith o werthuso Strategaeth y Gymraeg fod yn fater i Lywodraeth Cymru'n unig ond dylid ei rannu gyda phartneriaid er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer yr iaith*'.

Gwelir sawl enghraifft o'r modd y mae gwaith mesur canlyniadau/effaith wedi'i gydbblethu ag anghenion mesur canlyniadau ehangach o ran strategaeth y Gymraeg yn lleol. Mae'r enghreifftiau yn cynnwys bwydo canlyniadau a data i awdit blynyddol gwasanaethau ieuencid y sir ynghyd â thargedau Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (Canolfannau'r hwyrdyfodiaid); mae amcanion sawl canolfan bellach yn bwydo i mewn i strategaethau statudol y cynghorau sir i hybu'r Gymraeg sy'n fodd o gael darlun ar lefel sirol o gyfraniad y Canolfannau a'r partneriaid i'r strategaeth genedlaethol.

Gwersi a ddysgwyd

Roedd adroddiadau cau y Canolfannau a'r cyfweiliadau a gynhaliwyd yn amlinellu'r gwersi a ddysgwyd ganddynt ar hyd y daith. Mae llawer o'r sylwadau hyn yn gyffredin ac yn tanlinellu rhai negeseuon pwysig sy'n syrthio i dair thema yn fras:

Partneriaethau

- Nodwyd pwysigrwydd cyfathrebu clir a pharhaus o'r dechrau drwy ddiffinio union swyddogaeth y ganolfan mewn perthynas â chyrrff/mudiadau eraill sy'n gweithio o blaid y Gymraeg yn yr ardal a chadw cyswllt rheolaidd â rhanddeiliaid.
- Nodwyd yr angen i greu perthynas gyda'r gymuned a sefydliadau'r cylch a bod hyn yn codi ymwybyddiaeth ac yn meithrin ewyllys da a all yn ei dro esgor ar gyfleoedd newydd.
- Er bod cydweithio effeithiol wedi digwydd rhwng y cyrff arweiniol, gwelwyd bod angen clymu rhwydwaith ehangach ynghyd, a'r angen i '*sicrhau bod un darn o strategaeth y Llywodraeth yn atgyfnerthu darnau eraill yn naturiol a di-ymdrech o fewn cymuned.*'
- Gwelwyd bod angen rhoi pwyslais ar sicrhau cefnogaeth gyson a theg gan bob partner er mwyn sicrhau hirhoedledd y prosiect a llwyddiant hir dymor.
- Nodwyd hefyd bod cyfathrebu a meithrin y cysylltiadau cywir er budd y Gymraeg yn lleol wedi cymryd cryn dipyn o amser ac ymdrech – mwy nag a ragwelwyd mewn sawl achos, ond bod y buddsoddiad amser wedi bod yn hollbwysig ac yn talu ar ei ganfed yn y pen draw.

Traweffaith – negyddol/cadarnhaol

- Nodwyd mai un o'r prif rwystrau i weithredu'n sydyn ac effeithiol ar y dechrau oedd y diffyg ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Canolfannau a'u nod. Arweiniodd hyn at densiynau rhwng partneriaid mewn rhai ardaloedd a oedd yn golygu tipyn o ymdrech a negodi.
- Nodwyd gan sawl un mai prosiect hirdymor ydyw felly weithiau nid oes fawr i'w ddangos yn y byr dymor '*camau bach grymus ar y tro yn lle ceisio gwneud popeth.*'

- Nodwyd rhai gwersi anodd eraill, er enghraifft, yr angen i beidio â cheisio bod yn bopeth i bawb a derbyn na ellir cyflawni'r cyfan dros nos. Nododd un ganolfan *'mae'n amhosib gwireddu breuddwydion pawb ac mae'n anodd o ran cynnwys pawb yn y weledigaeth / prosiect. Rydym wedi ceisio adeiladu ar waith partneriaid lleol ond dyw hynny ddim wastad yn bosib'*.
- Nododd sawl canolfan bwysigrwydd peidio ag ymddangos yn sefydliadol neu'n ffenest siop i gorff cyhoeddus er mwyn bod y ganolfan yn perthyn i'r gymuned a'i phobl. Nodwyd bod angen bod yn ddewr a pheidio â bod yn gaeth i ethos sefydliadol bob tro a chanolbwyntio ar ateb anghenion yn lle ceisio plesio pawb a methu. Nododd un ganolfan ei bod hi'n *'allweddol cynnal brwdfrydedd a herio a newid agweddau – nid jyst lle i greu incwm yw'r ganolfan'*.
- Nododd canolfan arall fod cynllun strategol yn allweddol er mwyn rhoi llwybr clir gan sicrhau eu bod yn rhagweithiol ac yn targedu'r gwaith yn effeithiol tra'n parhau i fod yn fusnes cynaliadwy yn ogystal â bod yn gatalydd effeithiol i hyrwyddo'r Gymraeg.
- Nododd sawl canolfan mai eu cryfder oedd gallu gweld lle mae bwlch lleol mewn darpariaeth, neu elfen o ddarpariaeth, a bod yn ddigon hyblyg i allu ei lenwi. Pwysleisiwyd droeon mai ategu'r ddarpariaeth bresennol oedd y cyfraniad mwyaf buddiol – sicrhau llif rhesymegol o ddarpariaeth un partner i un arall.
- Mae nifer o'r Canolfannau yn mesur canlyniadau, ond defnyddir dulliau amrywiol ganddynt i fesur yn feintiol ac ansoddol. Nododd sawl un ei bod yn bwysig i adolygu'n gyson yn erbyn y nodau ond wrth edrych yn ôl cydnabuwyd yr angen i *'sicrhau mesur agwedd a defnydd cyn dechrau'r project fel bod llinyn mesur a gwaelodlin'*.

Adnoddau

- Y farn gyffredin oedd bod Rhwydwaith y Canolfannau yn adnodd gwerthfawr iawn ar y dechrau er mwyn i bawb rannu profiadau, syniadau a chynghor. Gwelwyd bod lle i edrych o'r newydd ar ei gylch gwaith wrth symud ymlaen at wireddu Strategaeth Cymraeg 2050 a fyddai'n rhoi arweiniad i bawb yrru'r agenda yn ei blaen. Nododd un o'r Canolfannau hwyrddyfodiaid er bod y Rhwydwaith cenedlaethol yn werthfawr, efallai fod angen hefyd sicrhau partneriaethau tebyg at eu tebyg (ee canolfan addysgiadol yn hytrach na chymdeithasol) er mwyn rhannu arferion da a syniadau yn ogystal.
- Her arall a nodwyd oedd diffyg grantiau yn y meysydd angenrheidiol a soniwyd am ddiffyg gwybodaeth barod am ffynonellau cyllid/grantiau eraill posibl i ategu'r gwaith i ddwyn pethau ymlaen i'r dyfodol. Yn y cyd-destun hwn awgrymwyd y gallai'r Rhwydwaith fod yn ffordd o rannu gwybodaeth o'r fath. *'Byddai defnyddio maint a dylanwad y Llywodraeth i drafod cytundebau ar y cyd ar gyfer yr holl ganolfannau hefyd o bosib yn lleihau costau...ee hawl chwarae cerddoriaeth'*.

- Gwelwyd bod grantiau cyfalaf yn fan cychwyn da i brosiectau ond roedd gallu a chapasiti staffio yn ystyriaeth anhepgor. ‘*Y brif her yw adnoddau dynol digonol*’. Roedd mwyafrif y Canolfannau yn gweld hyn yn heriol gan nad oedd unrhyw ddarpariaeth refeniw yn gysylltiedig â'r grant dderbyniwyd. Roedd diffyg adnoddau staffio yn cyfyngu ar yr hyn yr oedd yn Canolfannau yn dymuno'i gyflawni. Er bod rhai o'r sefydliadau arweiniol yn darparu cefnogaeth weinyddol, strategol, cynnal a chadw ac ati, nid oedd digon o adnodd staffio ar gael o ddydd i ddydd i wireddu rhai o'r amcanion gwreiddiol mewn rhai achosion.
- Nodwyd bod buddsoddi mewn staff allweddol a brwdfrydig yr un mor bwysig ag adnoddau er mwyn sicrhau canlyniadau positif. ‘*Nid yr adeilad yw'r broblem ond y bobl sydd eu hangen i wneud i bethau gweithio*’. Yn ôl un ganolfan mae sicrhau ewyllys da staff yn allweddol er mwyn lledaenu'r brwdfrydedd i'r gynulleidfa darged er mwyn sicrhau agweddau newydd a defnydd ehangach o'r Gymraeg.
- Mae defnydd o wirfoddolwyr yn amrywio o un ganolfan i'r llall. ‘*Gwirfoddolwyr sy'n cynnal y lle – ac felly'n griw mwy grymus sy'n gallu bod yn hyblyg*.’ Mae un ganolfan yn datblygu cynllun gwirfoddoli er mwyn ffurfioli cyfleoedd ar y cyd a'r Fenter Iaith.
- Soniodd sawl canolfan gan fod partneriaid yn rhannu'r un gofod bod hyn wedi arwain at enghreifftiau lle bu modd rhannu adnoddau, rhannu sgiliau ac arbenigedd, gan nodi na fuasai hyn o reidrwydd wedi digwydd fel arall. Nodwyd bod hyn yn enghraifft o fudd ehangach y Canolfannau nad oes modd ei fesur mewn gwirionedd.
- Gwnaed y pwynt fod y ‘*Canolfannau yn ofodau hwylus...ac yn galluogi cydweithredu ystyrlon ac effeithiol er lles yr iaith*’ ac awgrymwyd eu bod yn adnodd parod ar lefel genedlaethol hefyd i hyrwyddo strategaeth ganolog y Llywodraeth dros y Gymraeg. Awgrymwyd y dylid ceisio edrych am ffyrdd uchelgeisiol o gydlynu rhaglenni cenedlaethol (Dysgu Cymraeg, Mudiad Meithrin, Cymraeg Busnes ac yn y blaen) gan wneud defnydd strategol o'r Canolfannau.

Casgliadau ac argymhellion

Nodir isod y casgliadau ar sail y dystiolaeth a'r canfyddiadau, ac ynghlwm â'r casgliadau hyn mae ystyriaethau ac argymhellion i'r Llywodraeth a'r Canolfannau eu trin a'u trafod wrth edrych i'r dyfodol.

Cyflawni'r amcanion

Mae bodolaeth y Canolfannau sydd dan sylw yn yr adroddiad hwn, yn dyst i waith caled ac ymroddiad y sawl sy'n gysylltiedig â'r Canolfannau o ddyddiau'r cais cychwynnol hyd heddiw. Gellir dweud bod y prosiectau mwyaf llwyddiannus wedi'u gwreiddio mewn gweledigaeth glir a phwrpasol o ran ymateb i anghenion lleol y Gymraeg, eu bod yn mwynhau partneriaethau sefydlog a chryf, a bod ganddynt y modd i reoli a chynnal y Canolfannau i'r dyfodol gan daro cydbwysedd rhwng cynaliadwyedd a chyflawni.

O'r dystiolaeth a ddarparwyd gwelir bod y Canolfannau wedi llwyddo i wireddu'r amcan gwreiddiol o ddarparu manau i bobl ddysgu a/neu ddefnyddio'r Gymraeg ac mae rhai ohonynt yn ganolbwynt i'r Gymraeg yn eu cymunedau. Yn eu sgil, gwelwyd sefydlu prosiectau strategol a chymunedol a rhai datblygiadau arloesol. Drwy eu gweithgareddau maent yn llwyddo i gyfrannu at yr ymyraethau ledled Cymru i gynyddu defnydd pobl o'r Gymraeg mewn teuluoedd, yn gymunedol ac yn y gweithle.

Fel y nodwyd, mae dyfodol rhai Canolfannau yn fwy sicr nag eraill ac felly gwelir rôl bwysig i'w chwarae gan Rwydwaith y Canolfannau i gynnig cefnogaeth, ysbrydoliaeth a syniadau er mwyn i bawb deimlo eu bod yn sicrhau'r gorau i'w cymunedau gyda'r adnoddau sydd ar gael.

Rhwydwaith y Canolfannau hefyd efallai yw'r cyfrwng gorau i hwyluso trafodaethau strategol i'r dyfodol. Gan edrych ar amcanion gwreiddiol y Canolfannau a bennwyd ar sail Bwrw Mlaen, a'u gosod yng nghyd-destun Strategaeth Cymraeg 2050, mae modd crynhoi'r disgwyliadau/dyheadau strategol perthnasol iddynt i'r dyfodol fel hyn:

- Yr angen i hybu arloesedd
- Hwyluso a chryfhau cydweithio ymhlith partneriaid
- Rhoi ymyraethau a chyfleoedd ar waith i deuluoedd, pobl ifanc a chefnogi siaradwyr newydd

Mae nifer o'r Canolfannau wedi llunio cynlluniau strategol i'r dyfodol ac wedi cydblethu eu hamcanion â rhai eu partneriaid, naill ai drwy gydweithio ar lefel fwy lleol, neu ar ffurf strategaethau hybu y cynghorau sir. Wrth symud ymlaen felly, gwelir bod cyfle efallai i

sicrhau dulliau mwy effeithlon a chyson o fesur deilliannau, ac unwaith eto, drwy'r Rhwydwaith o bosibl mae modd creu'r sylfaen honno i *'ymchwilio, casglu data a dadansoddi'* a gwerthuso cyfraniad y Canolfannau i nod strategol y Llywodraeth.

Ystyriaethau

Fel y nodwyd, ni fu modd cymharu neu feincnodi'r Canolfannau oherwydd eu natur amrywiol. Yn **Atodiad 1** gwelir rhestr sy'n crynhoi nifer o elfennau a welwyd oedd yn cyfrannu at gryfder nifer o'r Canolfannau o ran sylfeini a chynaliadwyedd. Ar sail y dystiolaeth, profiadau'r Canolfannau a'r gwersi a ddysgwyd ganddynt, ymddengys fod sawl egwyddor arall i'w hystyried:

Gweithgareddau strategol

- Dylid sicrhau a chynnal dealltwriaeth drylwyr o anghenion lleol, a'u mynegi yn glir ar sail ymchwil a thystiolaeth gadarn o ddata meintiol ac ansoddol, fel bod gwaelodlin i fesur llwyddiant.
- Dylid ystyried ai diffyg darpariaeth mewn maes penodol sydd yno neu fylchau mewn darpariaeth ac a oes modd diwallu'r angen drwy gyfrwng mudiadau, adnoddau neu sgiliau sydd eisoes yn bodoli'n lleol.
- Dylid ystyried a oes cyd-ddealltwriaeth ffurfiol rhwng partneriaid allweddol ynghylch cwrmpas y prosiect ac a yw'n gydnaws yn strategol ar lefel leol a chenedlaethol. Beth yw'r cyfleoedd i gyd-hyrwyddo, rhannu adnoddau a sgiliau gyda'r partneriaid eraill? A oes cynllun a strwythur ar gyfer manteisio'n effeithiol ar wirfoddolwyr lleol fydd yn gysylltiedig â'r ganolfan neu'r gweithgaredd penodol?
- Mae ymwybyddiaeth awdurdodau lleol o werth a photensial y Canolfannau yn amrywio, gyda rhai awdurdodau lleol yn cydlynu a gyrru rhai gweithgareddau ac eraill o bosibl yn anymwybodol o'r gwaith da a'r potensial i'w cynorthwyo nhw i wireddu eu hamcanion statudol o ran yr iaith a llesiant. Pa gamau hyrwyddo gellid eu cymryd i godi proffil gwaith y Canolfannau a'u partneriaid?

Rhwydwaith a chefnogaeth ehangach

- Mae'r Canolfannau yn cynrychioli adnodd newydd i'w cymunedau ac ar lefel genedlaethol, ac felly gellid ystyried sut y gall y Llywodraeth ei hun wneud defnydd strategol gwell o'r adnodd hwn a hyrwyddo'r gwaith a wneir a dathlu eu llwyddiant. Dylid ystyried sut y gallent chwarae rôl wrth edrych am ffyrdd uchelgeisiol o gydlynu rhaglenni cenedlaethol partneriaid y Gymraeg.

- Gwelwyd bod y cyfarfodydd rhwydwaith ar ddechrau cyfnod sefydlu'r Canolfannau presennol yn werthfawr o ran rhannu profiadau ac arferion da. Mae'n gyfrwng i hwyluso cydweithio a rhaedru gwybodaeth o'r canol. Efallai fod cyfle i edrych o'r newydd ar nod y rhwydwaith wrth i'r Canolfannau edrych yn ôl ar eu profiadau, yr heriau a'r llwyddiannau ac edrych i'r dyfodol yng nghyd-destun Cymraeg 2050.
- Drwy gyfrwng y rhwydwaith gallai fod modd rhannu gwybodaeth am unrhyw ddulliau cyllido, grantiau, adnoddau perthnasol i roi chwistrelliad newydd o gyfleoedd i'r gweithgareddau sy'n mynd rhagddynt. Gellid hefyd rhannu arferion da o ran gweithio â phartneriaid a datblygu perthynas gref a chydweithredol yn lleol er mwyn osgoi tensiynau.
- Gellid cryfhau ffocws y rhwydwaith er mwyn sicrhau bod modd effeithiol o rannu arferion da, ymchwil a gwybodaeth cynllunio ieithyddol, syniadau a chefnogaeth ynghyd â mesur canlyniadau. Dylid hefyd ceisio ymgorffori ystyriaeth o fudd ehangach y gweithgareddau i'r broses o fesur canlyniadau (na ellir ei fesur yn aml ond sy'n cyfrannu at dystiolaeth a'r ymdeimlad bod newid ar droed).

Mesur effaith

- Yn ogystal ag asesu risgiau, dylai proses o asesu effeithiau negyddol a chadarnhaol darpariaeth neu weithgaredd newydd ar y ddarpariaeth leol bresennol fod yn elfen greiddiol i sefydlu gweithgaredd newydd. Dylid amlinellu a chytuno ar ddulliau o leddfau unrhyw effeithiau negyddol a chynyddu effeithiau cadarnhaol ble bynnag y bo'n bosibl.
- Dylid sicrhau cyd-ddealltwriaeth o amcanion a thargedau ac adnabod unrhyw fannau o orgyffwrdd i sicrhau na ddyblygir ymdrechion. Byddai hefyd yn werth ystyried hysbysu partneriaid mewn meysydd strategol eraill o fudd ehangach yr amcanion a'r deilliannau a ddymunir i'w hamcanion nhw (ee. llesiant, addysg).
- Dylid ceisio sicrhau bod gwybodaeth am draweffaith gweithgareddau llawr gwlad yn cyfrannu at y darlun ymchwil cenedlaethol gan edrych yn feirniadol ar ddulliau casglu tystiolaeth a mesur canlyniadau.

Grant Cyfalaf

Gyda dyfodiad y Canolfannau, gwelwyd llu o weithgareddau'n cael eu creu a'u cynnal er lles cymunedau lleol o siaradwyr a dysgwyr y Gymraeg. Felly yn sgil hyn, fe ddylai'r Llywodraeth fod yn effro i gyfleoedd ariannu yn y dyfodol, gan bwysu a mesur y profiadau a wynebwyd gyda'r prosiectau hyn.

Mae rhai goblygiadau grant cyfalaf yn gyffredin waeth beth yw'r maes: yr angen am gynllunio gofalus a hyblyg; cyfathrebu a dealltwriaeth ddwy ffordd; adeiladu capasiti a chynaliadwyedd i'r dyfodol. O safbwynt cyllidwr, gallai rhannu cyngor neu wybodaeth gychwynnol yn ymwneud â'r tair elfen honno fod yn ffordd o sicrhau ceisiadau cryf. Dylid ystyried:

- A yw'r ymgeiswyr wedi cael digon o amser i baratoi ceisiadau trylwyr ar sail ymchwil, asesiadau effaith gwirioneddol ystyrion, data gwaelodlin, ac ymgynghori â rhanddeiliaid er mwyn sicrhau dealltwriaeth gadarn o anghenion? Pa mor eglur a chryf yw'r cyswllt â phartneriaid fel y Fenter Iaith i sicrhau budd ehangach o'r cychwyn?
- Pa mor heriol yw'r broses dyfarnu grantiau – a oes angen cynnal cyfweiliadau yn ogystal â chynnull panel i drafod ceisiadau a'u dibenion strategol, ac a oes angen canllawiau a meini prawf wedi'i gwreiddio mewn nodau cynllunio ieithyddol ar y panel hwn?
- Fel rhan o amodau dyfarnu'r grant, dylid ystyried eglurder y disgwyliadau o ran yr hyn y dylai'r ymgeiswyr ei fonitro a'i werthuso ac adrodd arno er mwyn cyfrannu at ddarlun cenedlaethol o ddeilliannau. Mae'n werth cofio bod y broses o werth uniongyrchol i'r ymgeiswyr gan eu bod yn cael dadansoddiad beirniadol o'u gweithgareddau, pa mor llwyddiannus ydynt a sut mae modd eu gwella, yn ogystal â rhoi dadansoddiad cliriach i'r Llywodraeth o lwyddiant y buddsoddiad o ran cyflawni'r nod strategol.

Argymhelliad 1: Rhannu arferion llwyddiannus

Mae'r Canolfannau wedi gorfod dangos creadigrwydd a hyblygrwydd wrth ateb yr anghenion cymunedol a oedd yn sail i'w sefydlu ac mae sawl esiampl o arfer da y byddai'n fuddiol ei rhannu. Mae nifer o feysydd strategol lleol a chenedlaethol yn ganolbwynt i'r gweithgareddau hyn. Dylai'r Llywodraeth gydweithio â'r Canolfannau i lunio cyfres o astudiaethau achos y byddai modd i'r Canolfannau a'u partneriaid eu defnyddio ar eu gwefannau ac ar gyfryngau cymdeithasol (ee ffeithluniau neu glipiau fideo) er mwyn:

- Rhannu arferion da ymhlith partneriaid
- Codi ymwybyddiaeth o waith y Canolfannau a'u gwerth fel adnodd cymunedol yn ehangach
- Cynyddu'r potensial i gydweithio a rhannu arbenigedd ac adnoddau wrth wireddu amcanion strategol Llywodraeth Cymru

Argymhelliad 2: Rhwydwaith

Dylai'r Llywodraeth a'r Canolfannau ailedrych ar gylch gorchwyl y rhwydwaith a grëwyd adeg sefydlu'r Canolfannau. Dylid hwyluso trafodaeth ynglŷn â'r modd y gellir sefydlu cyd-ddealltwriaeth a pherthynas agored briodol i'r dyfodol er nad ydynt yn derbyn cyllid na thargedau cysylltiedig yn uniongyrchol gan y Llywodraeth. Byddai hyn yn fodd i:

- gryfhau cysylltiadau a chefnogaeth
- trin y Canolfannau yn fwy fel partneriaid a'u cynnwys yn nodau strategol Cymraeg 2050
- rhannu arferion a phroblemau
- osgoi dyblygu ymdrechion a rheoli disgwyliadau
- rhannu gwybodaeth a sicrhau bod pawb yn clywed yr un negeseuon
- hwyluso trafodaethau â mudiadau a sectorau perthnasol eraill
- hwyluso mesur traweffaith mewn modd sy'n gydnaws â gofynion amrywiol

Argymhelliad 3: Mesur Canlyniadau

Er nad oes gofyniad pellach i'r Canolfannau adrodd i'r Llywodraeth ar eu canlyniadau, mae lle i'r Llywodraeth a'r Canolfannau ystyried ar y cyd, y modd caiff canlyniadau eu gweithgareddau eu monitro a'u mesur. Mae'r Canolfannau gan fwyaf yn casglu gwybodaeth ar gyfer eu sefydliadau arweiniol (ee. Cyngor Sir, Coleg neu Brifysgol) a all amrywio o ran gofynion neu fesuriadau, ond mae nifer hefyd yn cydblethu â nodau partneriaid fel y Mentrau Iaith. Felly dylid cynnal trafodaeth i edrych ar y ffyrdd gorau o gydlyn ymdrechion o ran mesur effaith gweithgareddau ar ddefnydd pobl o'r Gymraeg *'er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer yr iaith'*.

diwedd

Atodiad 1: Nodweddion sylfeini da

Nodir isod y prif nodweddion sy'n amlygu eu hunain o edrych ar brofiadau'r amrywiol ganolfannau gyda'i gilydd; gallai'r rhestr gynnig cyfle i ganolfannau adolygu eu llwyddiannau eu hunain ac ystyried meysydd y gellir eu cryfhau a'u datblygu.

Diwylliant	<ul style="list-style-type: none"> • Pawb yn rhannu'r un gwerthoedd, cenhadaeth a gweledigaeth; y sefydliad yn adlewyrchu llais ac anghenion y gymuned • Brwdfrydedd er yr heriau ac yn realistig am yr hyn gellir ei gyflawni • Cefnogaeth i arloesedd a dysgu • Mesur yr hyn a gyflawnir a defnyddio'r wybodaeth honno fel sail i benderfyniadau strategol
Arweinyddiaeth	<ul style="list-style-type: none"> • Aelodau'r Bwrdd/Panel a'r staff/gwirfoddolwyr yn rhannu'r un blaenoriaethau
Y cyd-destun ehangach	<ul style="list-style-type: none"> • Dealltwriaeth o'r prif bartneriaid a'r rhanddeiliaid a'u hanghenion nhw • Dealltwriaeth o'r deilliannau ehangach sy'n bosibl eu cyflawni • Dealltwriaeth o gyfleoedd a bygythiadau a allai effeithio ar lwyddiant yr amcanion strategol • Ymgynghori neu'n ceisio barn amrywiaeth o rhanddeiliaid ynghylch y gwaith
Cynllunio a gweithredu	<ul style="list-style-type: none"> • Ffocws clir ar yr amcanion a'r blaenoriaethau strategol • Strategaeth a chynllun gweithredu eglur i'r blynyddoedd nesaf • Cynlluniau wrth gefn a strategaeth hyblyg yn ôl yr amgylchiadau • Capasiti i weithredu'r cynlluniau • Dealltwriaeth o'r sail ariannol sy'n sicrhau cynaliadwyedd • Cynllun cyfathrebu a chynllun rheoli rhanddeiliaid
Enw da a chyfathrebu	<ul style="list-style-type: none"> • Gallu adrodd stori glir ac atyniadol i gyfleu'r weledigaeth a'r hyn y bwriedir ei gyflawni • Cynnal yr enw da drwy berthynas gref gyda rhanddeiliaid allweddol • Rhoi ystyriaeth gyson i'r negeseuon craidd, dulliau cyfathrebu ac anghenion y gynulleidfa
Partneriaethau	<ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau cyfathrebu a chydweithio cyson a chadarnhaol gydag eraill yn y maes • Cymryd rhan mewn trafodaethau a digwyddiadau rhwydwaith neu bartneriaethol